Arolwg Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diolch i bobl a gymerodd ran y llynedd, canfu'r arolwg fod:

Mae **63%** wedi gweld eu meddyg teulu yn y 12 mis diwethaf

Roedd **83%** yn fodlon gyda'u gwasanaeth casglu ailgylchu



Mae **45%** wedi defnyddio trên yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2022-23

KANTAR PUBLIC

beaufortresearch

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw Arolwg Cenedlaethol Cymru?

Mae 12,000 o bobl y flwyddyn ledled Cymru yn cymryd rhan yn **Arolwg Cenedlaethol Cymru**. Cynhelir yr astudiaeth ar ran Llywodraeth Cymru gan Kantar Public a Beaufort Research. Mae'r canlyniadau'n ein helpu i weithredu ar ystod o faterion fel iechyd, llesiant, a bodlonrwydd ar wasanaethau cynghorau lleol.

Pam fod yr astudiaeth yn bwysig?

Yr Arolwg Cenedlaethol yw eich cyfle chi i ddweud wrthym ni am eich profiadau a'ch barn ynghylch ystod o faterion. Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cyfraniad am bod angen i ni siarad gyda phobl o wahanol oedrannau, o wahanol gefndiroedd, sy'n byw ym mhob rhan o Gymru.

Pam rydyn ni wedi cael ein dewis?

Dewiswyd eich cyfeiriad ar hap o restr cyfeiriadau'r Post Brenhinol o'r holl gyfeiriadau yng Nghymru, sydd ar gael i'r cyhoedd.

Pam dylem ni gymryd rhan?

Bydd eich atebion yn ein helpu i weithredu ar bethau sy'n bwysig i chi. Mater gwirfoddol yw cymryd rhan ond rydych yn bwysig iawn i ni gan na chawn ni roi'ch lle i unrhyw un arall.

Sut gallwn ni gymryd rhan?

1. Mae rhan gyntaf yr arolwg yn digwydd dros y ffôn, felly mae angen eich rhif ffôn arnon. Mae cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn yn y llythyr sy'n cyd-fynd â'r daflen hon.

2. Yna bydd cyfwelydd yn eich ffonio. Bydd y cyfwelydd yn dewis un person ar hap yn eich cartref, sy'n 16 oed neu'n hŷn, i gymryd rhan.

3. Fel diolch am gymryd rhan yn yr arolwg, byddwn yn anfon **taleb anrheg gwerth £20**.

A gaf i gymryd rhan yn Gymraeg?

Gallwch. Dywedwch wrth eich cyfwelydd neu cysylltwch â ni am ddim ar **0800 136 740**. Gallwch hefyd gymryd rhan mewn unrhyw iaith arall, ffoniwch ni i drefnu os gwelwch yn dda.

Pa mor hir yw'r arolwg?

Mae rhan gyntaf yr arolwg yn para tua 30 munud dros y ffôn. Yna, mae adran ar-lein a fydd yn cymryd tua 15 munud. Os nad ydych yn defnyddio'r rhyngrwyd, gallwch wneud yr rhan hon dros y ffôn.

Ydy fy atebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol?

Ydyn. Bydd yr wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi i ni'n cael ei chadw'n gyfrinachol a dim ond at ddibenion ymchwil y bydd yn cael ei defnyddio. Mae rhagor o fanylion am sut yr ydym yn storio ac yn prosesu gwybodaeth i'w cael ar ein gwefan: **www.llyw.cymru/arolwgcymru**

Beth os bydd gennyf unrhyw gwestiynau eraill?

Gall eich cyfwelydd ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Gallwch hefyd gysylltu â ni trwy:
arolwgcenedlaetholcymru@kantarpublic.com

Neu cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol:
arolygon@llyw.cymru
0300 025 2021

I ofyn am y wybodaeth hon mewn print bras, neu Braille, neu os oes unrhyw ffordd y gallwn ei gwneud yn haws i chi gymryd rhan, ffoniwch ni ar **0800 136 740**.

SAMPL

2. Leaflet 23-24 / issued July 2023 / Welsh KP